# Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gynhwysol i Fyfyrwyr Anabl

Cod 11: 2024 Fersiwn 01
Mewn grym o: 08 Hydref 2024 ymlaen

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn Disodli | Disgrifiad o’r Newid |
|---|---|---|
| 8 Hydref 2024. | Fersiwn 2018. | Diweddariad cyffredinol. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad y Cymeradwywyd | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Cefnogaeth a Lles Myfyrwyr. | Pwyllgor Rheoliadau’r Senedd ac Achosion Arbennig. | 08 Hydref 2024. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gynhwysol i Fyfyrwyr Anabl

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**CYNNWYS**


1 DIFFINIADAU ....3

2 PWRPAS Y COD ....3

3 OSGOI GWAHANIAETHU ....4

4 EGWYDDORION CYFFREDINOL ....7

5 DERBYNIADAU ....9

6 GWEITHGAREDDAU CYNEFINO ....13

7 CYFRINACHEDD A RHANNU GWYBODAETH BERTHNASOL ....14

8 CYNLLUNIAU CEFNOGI DYSGU PERSONOL (CCDP’s/PLSPs) ....16

9 GWYBODAETH HYGYRCH ....17

10 CYFLEUSTERAU / ADNODDAU HYGYRCH ....19

11 CYFLEOEDD DATBLYGU STAFF ....21

12 DARPARIAETH GYDWEITHREDOL ....21

13 CYNLLINIO, DILYSU AC ADOLYGU RHAGLENNI ....21

14 DYSGU AC ADDYSGU CYNHWYSOL ....22

15 YMARFER ASESU CYNHWYSOL ....27

## 1 DIFFINIADAU

Defnyddir y diffiniadau canlynol mewn perthynas â'r ddogfen hon:

**Model cymdeithasol o anabledd:** yn credu bod rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol a rhwystrau'n ymwneud ag agweddau pobl yn rhoi pobl â namau a chyflyrau iechyd parhaol o dan anfantais (neu'n eu hanablu).

**Myfyrwyr anabl:** Defnyddir y term 'myfyrwyr anabl' yn y Cod hwn gan ei fod yn seiliedig ar y model cymdeithasol o anabledd: Mae 'myfyrwyr anabl' yn cynnwys y rheini sydd â namau corfforol a synhwyraidd; anawsterau dysgu penodol; cyflyrau iechyd hirdymor a pharhaol; anawsterau iechyd meddwl a rhai ar y sbectrwm awtistiaeth.

**Myfyrwyr gydag anafiadau/salwch dros dro:** yn cynnwys y rheini ag anaf neu salwch 'tymor byr' sy'n debygol o bara dim mwy na 12 mis. Er bod myfyrwyr o'r fath yn gymwys i gael cefnogaeth gan y sefydliad, nid ydynt wedi eu hamddiffyn o dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

**Addasiad rhesymol:** unrhyw weithred sy'n helpu i liniaru anfantais sylweddol.

**Corff Cyfrifol:** Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn cyfeirio at y Corff Llywodraethu fel y 'corff cyfrifol'. Mae'r Corff Cyfrifol h.y. y brifysgol yn atebol yn gyfreithiol am weithredoedd y sefydliad cyfan, a hefyd am weithredoedd gweithwyr unigol yn ystod eu cyflogaeth, pa un a ydynt yn llawn amser, yn rhan amser neu dros dro. Mae'r Corff Cyfrifol yn gyfrifol hefyd am weithredoedd asiantiaid, gan gynnwys contractwyr a siaradwyr gwadd. Efallai y bydd unigolion hefyd yn cael eu dal yn gyfrifol am gynorthwyo gweithred anghyfreithlon os ydynt yn gwahaniaethu'n erbyn myfyriwr neu ymgeisydd anabl **yn fwriadol**.

**Gwasanaethau Anabledd Prifysgol Bangor**: yn cyfeirio at bob maes o'r adran Cefnogaeth a Lles Myfyrwyr sy'n cefnogi myfyrwyr anabl mewn perthynas ag addasiadau rhesymol ac ymarfer cynhwysol. Mae staff ymgynghorol yn gyfrifol am lunio Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol (PLSP's) sy'n amlinellu addasiadau rhesymol.

## 2 PWRPAS Y COD

Mae'r Cod yn grynodeb o'r rheolau a'r arweiniad yn ymwneud â darpariaeth gynhwysol i fyfyrwyr anabl er mwyn sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth lawn i gyflawni eu hamcanion datblygu.

Datblygwyd y Cod ochr yn ochr â pholisïau ar draws y sefydliad a dylid ei ddarllen a'i gymhwyso ar y cyd â'r holl bolisïau allweddol eraill, gan gynnwys Cynllun yr Iaith Gymraeg[1].

Disgwylir i aelodau staff gyfrannu at weithredu'r Cod sy'n amlinellu'r gofynion am ddull integredig, cydlynol a chyfannol o symud rhwystrau i ddysgu effeithiol, ac yn rhoi'r pwyslais ar gydweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion academaidd a gwasanaethau cefnogi ar sail adborth gan fyfyrwyr/rhanddeiliaid.

[1] http://www.banqor.ac.uk/canolfanbedwvr/pdf/LS saesneq 2013.pdf

# 3 OSGOI GWAHANIAETHU

## 3.1 Iaith ac osgoi stereoteipio

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo'n llawn i weithio o fewn y Model Cymdeithasol o Anabledd wrth ymdrin â chydraddoldeb i fyfyrwyr anabl. Wrth i rwystrau mympwyol a dianghenraid gael eu canfod a'u symud, caiff pobl anabl eu grymuso i ryngweithio ar yr un lefel â phobl nad ydynt yn anabl.

Gall iaith greu rhwystrau, er yn anfwriadol; gall geiriau ac ymadroddion gael eu cysylltu ag agweddau negyddol a pheri tramgwydd. Gall rhagfarn a gwahaniaethu godi a chael eu hatgyfnerthu trwy ddefnyddio iaith amhriodol. Disgwylir i staff feddu ar farn dda ac osgoi labeli meddygol (e.e. 'epileptig') neu dermau sy'n awgrymu rôl dioddefwr (e.e. 'pobl sy'n dioddef o'). Dylid defnyddio mwy o ddewisiadau grymuso (e.e. 'person ag epilepsi); mae hyn yr un mor bwysig wrth ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Os oes amheuaeth, a lle bo'n berthnasol, dylid gofyn i fyfyrwyr ddiffinio eu sefyllfa eu hun.

## 3.2 Deddfwriaeth

Er bod yr egwyddorion yn y Cod yn seiliedig ar degwch ar sail y ffaith bod yn rhaid cynnwys **pob** myfyriwr, rhaid i'r holl staff fod yn ymwybodol o'r fframwaith deddfwriaethol y maent yn gweithio o'i fewn, gan gynnwys darpariaethau yn y Ddeddf Cydraddoldeb sy'n amddiffyn myfyrwyr anabl rhag gwahaniaethu. (Gweler: Cyfleoedd Datblygu Staff, Adran 11.)

### 3.2.1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Disodlodd Deddf Cydraddoldeb 2010 yr holl gyfraith wrth-wahaniaethol flaenorol, gan ei chyfuno'n un Ddeddf sy'n amddiffyn yn erbyn gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid ar sail anabledd.

### 3.2.2 Y diffiniad o 'Anabledd' yn y Ddeddf

Caiff rhywun ei amddiffyn gan y Ddeddf os oes ganddo/ganddi 'nam corfforol neu feddyliol' sy'n 'cael effaith sylweddol a thymor hir ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'. Mae 'tymor hir' yn golygu deuddeg mis neu fwy.  Mae unigolion sy'n cael diagnosis o haint HIV, rhai canserau neu sglerosis ymledol yn cwrdd â'r diffiniad anabledd o dan y Ddeddf yn awtomatig, hyd yn oed os ydynt yn gallu cyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.  Mae unigolion a oedd yn anabl gynt, ond sydd wedi gwella bellach, yn parhau i gael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu.

### 3.2.3 Gwahaniaethu Uniongyrchol

Mae hyn yn digwydd pan fydd myfyriwr anabl yn cael ei drin yn llai ffafriol na myfyriwr arall mewn sefyllfa debyg. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd pan fydd unigolyn anabl yn cael ei drin yn wahanol oherwydd rhagdybiaethau ystrydebol neu ragfarn ynghylch eu cyflwr neu eu galluoedd. Nid oes modd cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol mewn perthynas ag anabledd, felly mae'n anghyfreithlon bob amser.

### 3.2.4 Gwahaniaethu Anuniongyrchol

Mae hyn yn digwydd pan fydd myfyrwyr anabl yn cael eu rhoi dan anfantais oherwydd 'darpariaeth, maen prawf neu ymarfer' sy'n cael ei gymhwyso yn yr un ffordd i bob myfyriwr neu i grŵp penodol o fyfyrwyr. Ni ellir cyfiawnhau gwahaniaethu anuniongyrchol ond pan fydd y ddarpariaeth, y maen prawf neu'r ymarfer yn 'fodd cymesur o gyflawni nod

cyfreithlon' (gweler isod).

### 3.2.5 Dulliau cymesur o gyflawni nod dilys

O dan amgylchiadau **cyfyngedig**, gellir cyfiawnhau gwahaniaethu anuniongyrchol, ond dim ond lle gellir dangos bod y weithred yn **angenrheidiol** ac yn **briodol** o ganlyniad i bryderon **go iawn**. Gall 'amcanion cyfreithlon' gynnwys cynnal safonau academaidd neu sicrhau iechyd a diogelwch a lles y myfyrwyr. Rhaid i'r dull o gyflawni'r amcan fod yn gymesur (yn briodol ac yn angenrheidiol). Os na chydymffurfiwyd â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol (gweler 3.2.7) bydd yn anodd dangos bod y cam gweithredu a gymerwyd yn gymesur.

Safonau cymhwysedd

Diffinir safonau cymhwysedd o fewn y ddeddfwriaeth fel safon academaidd, feddygol neu safon arall a gymhwyswyd gan neu ar ran sefydliad addysg uwch er mwyn penderfynu a oes gan unigolyn lefel benodol o gymhwysedd neu allu ai peidio. Ni allant gyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol, ond gallant gyfiawnhau trin person anabl yn llai ffafriol, lle mae'r safon yn **ddilys, wedi ei chymhwyso'n gyfartal** i bawb, a'r cymhwysiad yn **gymesur** â'r nod a geisir. Efallai bydd angen addasu proses asesu cymhwysedd.

### 3.2.6 Dyletswydd i wneud addasiad rhesymol

Mae Adran 20 y Ddeddf[2] yn gosod dyletswydd ar Ddarparwyr Addysg Uwch i wneud 'addasiadau rhesymol' i fyfyrwyr anabl mewn perthynas â:

- darpariaeth, maen prawf neu ymarfer (er enghraifft: dulliau addysgu ac asesu)
- nodweddion hygyrchedd (er enghraifft: mynediad at theatrau darlithio, labordai)
- cymhorthion ategol (y mae eu diffiniad yn cynnwys gwasanaethau ategol) (er enghraifft: dolenni clyw, gwybodaeth mewn fformatau hygyrch neu ddarparu Cymorth Anfeddygol)

Os yw myfyriwr anabl o dan 'anfantais sylweddol', o'i gymharu â myfyrwyr nad ydynt yn anabl, mae'n ofyniad cyfreithiol i gymryd y cyfryw gamau ag a fo'n rhesymol i atal yr anfantais honno. Wrth ystyried a ydyw person anabl yn cael ei roi o dan anfantais **'sylweddol'** dylid cymryd i ystyriaeth yr amser, yr anghyfleustra, yr ymdrech neu'r anghysur a wynebir ganddynt o'i gymharu â phobl eraill.

Mae'r hyn sy'n **'rhesymol'** a'r hyn nad yw'n rhesymol yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Ond, wrth ystyried beth sy'n rhesymol, mae angen edrych yn fanwl ar unrhyw gamau arbennig a fyddai'n effeithiol i oresgyn yr anhawster y mae pobl anabl yn ei wynebu wrth gael gafael ar y ddarpariaeth dan sylw. Gellir mesur hefyd pa mor rhesymol yw addasiadau unigol o ran **cost, ymarferoldeb** ac o ran a ydyw'r addasiad yn **amharu yn sylweddol** ar fyfyrwyr eraill, ac edrych ar yr adnoddau **ariannol** a'r **adnoddau** eraill sydd ar gael. Diben y ddyletswydd yw peidio â rhoi mantais annheg i fyfyrwyr anabl, ond i gael gwared ar rwystrau i ddysgu ac asesu gwrthrychol, lle mae'n rhesymol gwneud hynny.

### 3.2.7 Dyletswyddau a ragwelir

Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn un a ragwelir, ac yn ddyletswydd tuag at bobl anabl yn gyffredinol, nid dim ond i unigolion penodol yn unig. Oherwydd hyn, bydd angen rhagweld addasiadau priodol i fyfyrwyr anabl yn y

[2] www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/20

dyfodol, a lle bo'n bosib gwneud addasiadau ymlaen llaw. **Dylid cynllunio arferion dysgu, addysgu ac asesu i fod yn hygyrch o'r cychwyn cyntaf fel mai dim ond mân addasiadau y bydd angen eu gwneud ar gyfer unigolion.** Nid oes amddiffyniad cyfreithiol am fethiant sefydliad i wneud addasiad rhesymol. Byddai hyn yn cael ei ddehongli fel gwahaniaethu o dan Adran 21 y Ddeddf[3]. Trwy ragweld cymaint â phosibl o anghenion amrywiol darpar fyfyrwyr, bydd llai o angen gwneud addasiadau ar gyfer unigolyn, ac o wneud hynny byddwn yn creu amgylchedd cynhwysol lle rydym yn darparu ar gyfer myfyrwyr anabl yn yr un ffordd â myfyrwyr heb anabledd.

### 3.2.8 Gwahaniaethau'n deillio o anabledd

Mae hyn yn berthnasol lle bydd myfyriwr yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd rheswm **cysylltiedig** ag anabledd. I'r driniaeth lai ffafriol fod yn gyfreithlon rhaid gallu ei chyfiawnhau, er enghraifft, ar sail cynnal safonau cymhwysedd (gweler 3.2.6)

### 3.2.9 Datganiad

Bydd y brifysgol yn atebol o'r eiliad y mae ymgeisydd neu fyfyriwr yn hysbysu unrhyw aelod staff fod nam arnynt, neu os yw nam yr unigolyn yn weladwy (gweler Adran 7).

### 3.2.10 Gweithredu Cadarnhaol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn galluogi sefydliadau'n benodol i drin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl heb anabledd. Gellir rhoi mesurau gweithredu cadarnhaol yn eu lle i liniaru anfantais, lleihau tangynrychiolaeth neu gyflawni gofynion penodol pobl anabl.

Mae gan y brifysgol, fel sefydliad yn y sector cyhoeddus (gweler isod), ddyletswydd i drin pobl anabl yn fwy ffafriol lle bo angen i sicrhau canlyniad cyfartal.

### 3.2.11 Dyletswyddau Cydraddoldeb yng Nghymru

Mae tair dyletswydd gyffredinol y gofynnir i brifysgolion (fel sefydliadau sector gyhoeddus) roi sylw priodol iddynt:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erlid ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd wedi ei hamddiffyn a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd wedi ei hamddiffyn a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Er mwyn cefnogi'r gweithgareddau hyn, mae'n ddyletswydd ar y brifysgol ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol[4] a chynllun gweithredu cefnogol a adolygir yn flynyddol. Tasg y Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yw datblygu a monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

### 3.2.12 Erlid

---

[3] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/21

[4] https://www.bangor.ac.uk/humanresources/equalitydiversity/policy_intro.php.en

Dyma le caiff rhywun ei drin yn anffafriol oherwydd ei fod wedi dod ag achos, wedi rhoi tystiolaeth neu wedi gwneud honiad am wahaniaethu anghyfreithlon, neu'n cefnogi rhywun sy'n gwneud hyn.

**3.2.13 Gwybodaeth bellach:**

Gellir dod o hyd i'r Ddeddf Cydraddoldeb Llawn yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/6

I lawrlwytho’r codau a'r cyfarwyddyd, ewch i wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yma: https://www.equalityhumanrights.com/en

## 4 EGWYDDORION CYFFREDINOL

### 4.1 Mynediad a chanlyniad ecwitïol

Er bod 'myfyrwyr anabl' yn cynnwys y rheini sydd â namau corfforol a synhwyraidd; anawsterau dysgu penodol, gan gynnwys dyslecsia; cyflyrau iechyd hirdymor a pharhaol; ac anawsterau iechyd meddwl, mae'n bwysig pwysleisio bod anghenion bwysig pwysleisio bod anghenion pob unigolyn yn wahanol. Mae’n bosib bod gan fyfyrwyr a'r un nam neu gyflwr iechyd anghenion gwahanol a bod angen cefnogaeth neu addasiadau gwahanol arnynt. Gall effaith nam/ cyflwr newid o ddydd i ddydd ac mewn amgylcheddau gwahanol, felly dylid rhoi'r pwyslais ar symud rhwystrau mewn ymgynghoriad â myfyrwyr a Gwasanaethau Anabledd yn ogystal â deall y continwwm anghenion trwy gydol taith y myfyriwr a chydnabod amrywiaeth y corff myfyrwyr.

### 4.2 Gwasanaethau Anabledd Prifysgol Bangor[5]

Bydd y brifysgol yn sicrhau bod digon o adnoddau i gyflawni gofynion y Gwasanaethau Anabledd, gan gydnabod y rhan allweddol y maent yn ei chwarae mewn ymgorffori cynhwysiant ar draws y sefydliad a sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu rhoi yn eu lle.

Egwyddor waelodol cefnogaeth i fyfyrwyr anabl yw hyrwyddo annibyniaeth fel bod y myfyrwyr yn datblygu'n ddysgwyr gweithredol ac annibynnol a chyflawni eu hamcanion datblygu. Mae'r gwasanaethau'n rhoi cefnogaeth uniongyrchol i fyfyrwyr anabl ac yn cydweithio a staff i sefydlu dulliau darparu hygyrch a chynhwysol. Caiff adborth ei gasglu mewn amrywiaeth o ffyrdd a'i ddefnyddio i werthuso ansawdd a pherthnasedd y darpariaethau.

### 4.3 Agwedd gyfannol at symud rhwystrau a chefnogi myfyrwyr

**Cyflawniad**

Dylai cefnogaeth anabledd gael ei ymgorffori ar draws profiad myfyrwyr gydag ymrwymiad i ddarpariaeth gydweithredol rhwng ysgolion academaidd, gwasanaethau canolog a'r Gwasanaethau Anabledd. Bydd gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Anabledd yn sicrhau cysondeb ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd. Mae addasiadau rhesymol a ragwelir, a gynlluniwyd yn dda, yn fwy tebygol o fod yn effeithiol nag addasiadau unigol ad hoc, gan leihau nifer yr addasiadau rhesymol unigol sydd eu hangen, fydd yn arbed arian yn y tymor hir, oherwydd bod addasiadau rhesymol unigol yn debygol o fod yn draul cyson ar amser staff ac arian cyllidebau. Mae'n aml yn fwy cost-effeithiol i ymgorffori addasiadau o'r cychwyn cyntaf, wrth lunio polisïau ac wrth gynllunio mentrau newydd yn hytrach nag addasu trefniadau sydd eisoes yn

[5] https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/index.php.cy

bodoli mewn ymateb i gais unigol.

### 4.4 Tiwtoriaid Anabledd

Gofynnir i benaethiaid ysgolion benodi aelod o staff i swydd Tiwtor Anabledd. Fel rheol aelod o'r staff academaidd fydd hwn er mwyn sicrhau bod yr addasiadau rhesymol a nodwyd yn cyd-fynd â'r deilliannau dysgu. Dylai'r aelod staff a benodir i'r swydd gael adnoddau digonol i gyflawni cyfrifoldebau'r swydd a chael ei roi ar ben ffordd cyn dechrau.

Prif rôl y Tiwtor Anabledd yw:

- bod yn bwynt cyswllt mewn perthynas ag arbenigeddau pwnc yn yr Ysgol ac alinio addasiadau rhesymol, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, i gynllun y cwricwlwm, addysgu a dulliau asesu yn yr Ysgol;

- hyrwyddo a gwella cynwysoldeb a darpariaeth hygyrch, yn cynnwys ym meysydd: cynllunio cwricwlwm; dulliau addysgu ac asesu; ymchwil; a gweithgareddau oddi ar y campws fel bo'n briodol;

- gweithredu fel sianel gwybodaeth rhwng yr Ysgol a Gwasanaethau Anabledd y Brifysgol; a

- bod yn bwynt cyswllt cyntaf i gydweithwyr a myfyrwyr anabl yn yr Ysgol am faterion yn ymwneud ag anabledd ar lefel yr Ysgol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ddisgwyliadau a dyletswyddau'r swydd yn: https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/documents/GuidelinesforDisabilityTutorsFeb2016.pdf

### 4.5 Cynllunio, Monitro a Gwerthuso

Mae datblygu polisi ac ymarfer cynhwysol mewn perthynas a gwella profiad myfyrwyr anabl ar draws y brifysgol yn allweddol bwysig er mwyn darparu cefnogaeth effeithiol ac addas i fyfyrwyr a bydd y gwaith hwn dan arweiniad uwch reolwyr yn y colegau, yr ysgolion a'r adrannau canolog. Bydd asesiadau effaith cydraddoldeb[6] yn helpu'r broses hon, felly hefyd ennill a defnyddio adborth myfyrwyr yn effeithiol.  Dylai monitro cyrsiau roi cyfle i fyfyrwyr i roi adborth ar rwystrau sy'n ymwneud ag anabledd a dylid cymryd camau i annog penodi myfyrwyr anabl yn gynrychiolwyr cwrs. Lle bo rhwystrau hysbys dylai'r rheiny gael eu cynnwys eto o ran datblygu ac ail-ddilysu rhaglenni.

Dylid ymgynghori a'r Gwasanaethau Anabledd a Thiwtoriaid Anabledd wrth ddatblygu polisi sy'n effeithio neu a allai effeithio ar fyfyrwyr anabl.

Tasg y Gweithgor Anabledd yw monitro ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr anabl, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr.  Mae'r Grŵp yn adrodd i'r Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwyr, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr). Mae'r aelodaeth yn cynnwys

---

[6] http://www.bangor.ac.uk/humanresources/equalitydiversity/eia.php.cy

pwll o hyd at chwe myfyriwr anabl gwirfoddol a chynrychiolaeth o Undeb y Myfyrwyr er mwyn sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei ymgorffori mewn modd gwybodus a chynrychiadol. Caiff data myfyrwyr (gan gynnwys niferoedd myfyrwyr, adborth myfyrwyr a chyfraddau boddhad) eu casglu, eu dadansoddi a'u monitro gan y Gweithgor Anabledd ac ma Gweithgor Anabledd ac maent yn sail i gynlluniau gweithredu'r Gwasanaethau Anabledd. Caiff materion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg eu cyfeirio'n ôl at y Tiwtoriaid Anabledd, y Grwpiau Tasg perthnasol neu wasanaethau proffesiynol, fel y bo'n briodol.

Caiff data cydraddoldeb, gan gynnwys myfyrwyr â nodweddion wedi eu hamddiffyn fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) eu casglu'r trwy'r broses gofrestru ar-lein. Caiff cynnydd tuag at well cynhwysiant ei werthuso trwy ddefnyddio data cryno yn yr adolygiad blynyddol o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol, a gaiff ei fonitro gan y Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

## 5 DERBYNIADAU

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â Chod Ymarfer Prifysgol Bangor ar gyfer Recriwtio a Derbyniadau[7].

### 5.1 Deddfwriaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gwahaniaethu ac erlid yn anghyfreithlon yn ystod y cylch derbyniadau mewn perthynas â:

[i] Popeth y mae sefydliad yn ei wneud i benderfynu pwy sy'n cael ei dderbyn (rhaid i'r prosesau fod yn anwahaniaethol, gan gynnwys cynllun cyrsiau, gofynion mynediad; marchnata; gwybodaeth, yn ogystal â'r broses gwneud cais a derbyniadau).

[ii] Y telerau y mae sefydliad addysg uwch yn eu cynnig i dderbyn person fel myfyriwr.

[iii] Trwy beidio â derbyn person fel myfyriwr.

### 5.2 Polisi

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i ehangu cyfleoedd i fynd i addysg uwch, ac mae'n derbyn myfyrwyr gydag amrywiaeth eang o gymwysterau a chefndiroedd. Er mwyn osgoi'r potensial ar gyfer gwahaniaethu, gwneir cynigion i ymgeiswyr anabl yn yr un modd ag ar gyfer pob ymgeisydd; bydd pob cais yn cael ei ystyried mewn perthynas â gofynion mynediad yn unig.

### 5.3 Diwrnodau Agored

Rhaid defnyddio lleoliadau hygyrch ar gyfer Diwrnodau Agored a ffeiriau recriwtio. Fel corff cyhoeddus, mae'n ddyletswydd ar y brifysgol i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd, ac mae arni ddyletswydd a ragwelir i wneud addasiadau rhesymol. Dylai ysgolion ac adrannau ddisgwyl a gwneud trefniadau i roi croeso i ddarpar fyfyrwyr ac ymwelwyr gydag amrywiaeth mawr o namau/cyflyrau a gofynion cefnogi. Gall y Gwasanaethau Anabledd roi cyngor yn ôl y gofyn.

---

[7] https://www.bangor.ac.uk/regulations/codes/code09.php.en

### 5.4 Safonau cymhwysedd (gweler 3.2.6)

Dylid adolygu safonau cymhwysedd, sy'n nodi'r gofynion mynediad i gwrs, er mwyn sicrhau eu bod yn ddilys, yn berthnasol, ac, ar sail tystiolaeth, yn angenrheidiol. Rhaid eu profi'n drylwyr i wneud yn siŵr eu bod yn deg, a lle bo'n bosib, dylid eu geirio yn y fath ffordd fel eu bod yn berthnasol i dasgau a deilliannau penodol, yn hytrach na chategorïau swyddi neu fynediad at broffesiwn yn gyffredinol, ac yn rhoi sylw priodol i'r gofyniad i wneud addasiadau rhesymol i'r broses asesu. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod safonau cymhwysedd wedi eu diffinio'n eglur ac yn ofyniad penodol ar gyfer y proffesiwn. Er hynny, gwaith y staff derbyniadau fydd cymhwyso'r fframwaith hwn wrth gynnig lleoedd i fyfyrwyr ar raglenni.

### 5.5 Disgrifiadau rhaglenni

Ni ddylai rhaglenni gynnwys rhwystrau dianghenraid i fynediad i bobl anabl. Dylai'r wybodaeth am y cwrs roi digon o wybodaeth i alluogi myfyrwyr anabl i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu gallu i gwblhau elfennau craidd y rhaglen.

Yn unol â **dyletswyddau a ragwelir** y brifysgol, ni ddylai ysgolion aros i gais gael ei wneud cyn ymchwilio i ba mor hygyrch mae cwrs i fyfyriwr arbennig. **Dylid rhoi ystyriaeth ymlaen llaw i addasiadau rhesymol** i'w galluogi i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau a ddarperir fel rhan o raglen astudiaeth. Pan fo ysgolion yn ymwybodol o unrhyw gyfleusterau neu weithgareddau cwrs nad ydynt yn hygyrch o bosib i Fyfyrwyr Anabl, dylent gysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd i edrych ar addasiadau rhesymol. Lle bo angen, bydd angen adolygu deilliannau dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch.

### 5.6 Rhwystrau na ellir eu goresgyn

Lle ceir rhwystrau na ellir eu goresgyn, dylid cydnabod y cyfyngiadau ym manylion y rhaglen er mwyn i ddarpar fyfyrwyr allu dewis eu rhaglen ar sail gwybodaeth.

Er y bydd yr holl geisiadau gan bobl anabl yn cael eu hystyried ar sail gydradd, mewn ychydig o amgylchiadau gall fod pryderon difrifol ynghylch iechyd a diogelwch, rhwystrau sy'n ymwneud â gofynion proffesiynol/safonau cymhwysedd, neu ar ôl ystyried yr holl ddewisiadau posib, gall fod yn amhosib rhoi rhai addasiadau ar waith ar hyn o bryd.

Rhagwelir nad oes dim llawer o risg y bydd yn rhaid tynnu cynnig yn ôl. Ond os bydd achos felly yn codi, bydd y penderfyniad terfynol ynghylch tynnu cynnig yn ôl yn cael i wneud gan y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr ar y cyd â Phennaeth yr Ysgol. Bydd y penderfyniadau'n seiliedig ar arweiniad gan y gwasanaethau anabledd yn dilyn ymchwiliad helaeth i'r addasiadau rhesymol. Os bydd cynnig yn cael ei dynnu'n ôl, cyfrifoldeb y Swyddfa Derbyniadau fydd hysbysu'r ymgeisydd. Caiff cofnodion llawn eu cadw yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998. Mae gwybodaeth am y broses Apeliadau wedi'i chynnwys yn y Cod Ymarfer ar gyfer Recriwtio a Derbyniadau.

Os na ellir cwrdd ag anghenion yr unigolyn, rhaid i'r Ysgol archwilio'r rhesymau pam, ac ystyried a ydyw'r safonau cymhwysedd ar gyfer y cwrs yn anwahaniaethol.

## 5.7 Proses Derbyniadau

Bydd cynigion yn cael eu gwneud i ymgeiswyr anabl yn yr un modd ag i'r holl ymgeiswyr. Yr unig **eithriad** i hyn yw pan gaiff ymgeisydd ei wahodd i asesiad fel rhan o'r broses dderbyn (e.e. ar gyfer cyrsiau mewn Gwyddorau Gofal Iechyd neu Addysg) ac efallai bydd angen trafod addasiadau rhesymol bryd hynny. (Gweler 5.10)

**Unwaith y bydd cynnig wedi'i wneud,** bydd y Swyddfa Derbyniadau'n anfon copi o'r ffurflen gais at y Tiwtor Derbyniadau yn rhoi gwybod iddynt gysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd os oes unrhyw ansicrwydd a all yr ymgeisydd gyflawni'r deilliannau dysgu craidd. Bydd angen trafodaeth ynghylch rhwystrau posibl, addasiadau rhesymol a safonau cymhwysedd. Dylid cynghori ymgeiswyr i wirio union ofynion y cwrs, a chysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd i drafod addasiadau rhesymol a gofynion cefnogaeth os teimlant y byddant efallai'n wynebu rhwystrau'n gysylltiedig ag amhariadau (gan gynnwys rhwystrau oherwydd cyflyrau iechyd hirdymor). Bydd gwybodaeth glir am ofynion y cyrsiau ar gael yn gyson ar draws ysgolion yn gwneud y broses uchod yn haws. Bydd eglurder yn sicrhau na fydd gwybodaeth gamarweiniol yn cael ei rhoi'n anfwriadol i ddarpar fyfyrwyr, a allai'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ystyried iddi dorri deddfwriaeth diogelu defnyddwyr.

Bydd y Gwasanaethau Anabledd yn ysgrifennu at ymgeiswyr sydd wedi ticio'r blwch anabledd ar y ffurflen UCAS neu ffurflenni cais eraill i godi ymwybyddiaeth am ddarpariaeth gwasanaethau a'r cyllid sydd ar gael. Anogir ymgeiswyr i gysylltu â'r gwasanaeth i ddynodi addasiadau rhesymol. Bydd myfyrwyr sy'n crybwyll cyfyngiadau symud yn cael eu hannog yn gryf i ymweld â'r brifysgol, ond er ei fod er eu lles gorau, dylid cydnabod nad oes raid iddynt wneud hynny, neu efallai na fyddant yn gallu gwneud hynny.

## 5.8 Asesiad Iechyd cyn dechrau'r cwrs

Ar gyfer rhai cyrsiau (nyrsio, er enghraifft) mae gofyn i'r holl ymgeiswyr gael asesiad iechyd cyn y cwrs. Mae angen ystyried gofynion ymgeiswyr anabl yn unigol ac mewn ffordd hyblyg a rhoi mesurau yn eu lle i wneud addasiadau rhesymol er mwyn galluogi ymgeiswyr i ddangos eu gallu i gyflawni meini prawf iechyd da fel y'u pennir gan y cyrff rheoleiddio.

Dylid egluro i'r holl ymgeiswyr sut y caiff safonau'r cyrff perthnasol eu cymhwyso. Er enghraifft: os yw mynediad i'r cwrs, neu gofrestriad gyda chorff proffesiynol, yn dibynnu ar ganiatâd meddygol, dylid gwneud hyn yn eglur. Dylid cynnig arweiniad cyn mynediad i'r rhai sy'n datgan bod nam arnynt a dylai'r trafodaethau gynnwys darparu addasiadau rhesymol yn ogystal â chyfyngiadau posib i ystod yr ymarfer yn y proffesiwn lle bo'n berthnasol.

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[8] (NMC) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal[9] (HCPC) yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu diwallu fel tystiolaeth o 'iechyd a chymeriad da' er mwyn bodloni cofrestr y ddau gorff bod ymgeisydd yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r ddau gorff rheoleiddio'n cydnabod bod y term 'iechyd da' yn gysyniad cymharol, ac 'a registrant may have a disability, such as impaired hearing, or a health

[8] http://www.nmc-uk.org/Students/Good-Health-and-Good-Character-for- students-nurses-and-midwives /
[9] http://www.hpc-uk.org/aboutregistration/healthanddisabilitv/

condition, such as depression, epilepsy, diabetes or heart disease, and yet be perfectly capable of safe and effective practice'. Nid yw'n rhesymol gosod rheolau pendant ynghylch cyflyrau penodol ac felly asesir statws iechyd ymgeiswyr unigol trwy Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a fydd yn ei dro yn cynghori'r Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd ynghylch pa mor gydnaws y mae iechyd yr ymgeisydd ag ymarfer yn y maes.
Os na fydd statws iechyd yr ymgeisydd yn cyflawni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y cwrs, caiff yr ymgeisydd ei hysbysu o'r rheswm dros wrthod y cais, a chynigir cyfle iddo/iddi i drafod y mater gyda Thiwtor Anabledd yr Ysgol, a'r Gwasanaethau Anabledd, fel y bo'n briodol.

**5.9 Cod Ymarfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol**

Disgwylir i fyfyrwyr ar y rhaglen MA Gwaith Cymdeithasol gydymffurfio â Chod Ymarfer Cyngor Gofal Cymru ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr gofrestru â Chyngor Gofal Cymru ac mae cadw at y cod hwn yn un o amodau'r cofrestru hwnnw.

**5.10 Cyfweliadau /profion cyn y cwrs**

Os yw'n ofynnol, fel rhan o'r drefn ddewis, i ymgeiswyr gael asesiad cyn y cwrs, dylai mesurau fod yn eu lle i sicrhau bod ymgeiswyr anabl yn derbyn yr addasiadau a'r gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddynt. Gan gofio nad yw myfyrwyr yn gorfod rhannu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd, dylai ysgolion sy'n derbyn ofyn i'r HOLL ymgeiswyr a oes angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i fynd i'r prosesau dewis a chymryd rhan lawn ynddynt.

**5.11 Cyrsiau Gwyddorau Gofal Iechyd, Addysg a Gwaith Cymdeithasol**

Dylai'r Tiwtor Derbyniadau sicrhau bod ymgeiswyr yn cael cefnogaeth ymarferol i ddod i gyfweliad ac i gymryd rhan lawn ynddo a rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Anabledd am y trefniadau. Os oes gan ymgeisydd ofynion cymhleth am gefnogaeth, efallai y bydd angen i Gynghorwr Anabledd gyfarfod yr ymgeisydd ymlaen llaw i drafod addasiadau rhesymol a gofynion cefnogi.

**5.12 Canllawiau ar gyfer Cyfweld Ymgeiswyr anabl, gan gynnwys ar gyfer cyrsiau Gwyddorau Gofal Iechyd, Addysg a Gwaith Cymdeithasol**

i. Dylid gofyn cwestiynau cyffredinol i'r holl ymgeiswyr a rhoi cyfle i ymgeiswyr ddangos eu **potensial** i gyflawni'r cymwyseddau.
ii. Dylid egluro sut mae safonau addasrwydd i ymarfer y cyrff dan sylw yn cael eu cymhwyso.
iii. Dylai unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r nam/cyflwr iechyd sydd ar yr ymgeisydd fod yng nghyd-destun yr addasiadau rhesymol a nodwyd gan yr ymgeisydd. Dylid egluro bod y brifysgol yn croesawu ceisiadau gan bobl anabl a bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r brifysgol beidio â thrin pob anabl yn llai ffafriol.
iv. Dylid egluro sut bydd gwybodaeth am nam yr ymgeisydd yn cael ei gwarchod neu ei lledaenu yn y sefydliad ac ar leoliadau (gweler Adran 7).

v. Os oes rhwystr na ellir cyfiawnhau ei symud, dylid hysbysu'r ymgeisydd bod angen trafod ymhellach gyda'r Gwasanaethau Anabledd ynghylch addasiadau rhesymol cyn cynnig lle i'r ymgeisydd.

vi. Dylid sicrhau bod yr ymgeisydd yn cysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd, os nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod, yr un diwrnod os yn bosib. Bydd hyn yn rhoi cyfle i drafod gofynion cefnogi ac addasiadau rhesymol mewn mwy o ddyfnder. Gall gwasanaethau anabledd roi cyngor ynghylch hawl yr ymgeisydd i wneud cais am nawdd i dalu am y costau ychwanegol a wynebwyd o ganlyniad i anabledd (Lwfansau Myfyrwyr Anabl).

vii. Hysbysu gwasanaethau anabledd o ganlyniad y cyfweliad cyn gynted ag y bo modd.

### 5.13 Myfyrwyr Rhyngwladol

Mae gan fyfyrwyr rhyngwladol yr un hawliau â myfyrwyr cartref o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ond nid ydynt yn gymwys i dderbyn Lwfansau Myfyrwyr Anabl (DSA) sydd fel arfer yn talu am ofynion cefnogi ychwanegol (er enghraifft darparu mentor arbenigol). Mae'n bwysig felly fod darpar fyfyrwyr rhyngwladol yn cael eu hannog yn gryf i gysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod cyfle i chwilio am ffynonellau cyllid ar gyfer unrhyw addasiadau rhesymol.

### 5.14 Prosesau clirio

Unwaith y bydd myfyriwr wedi cael cynnig lle, dylid hysbysu pob myfyriwr sy'n gwneud cais am gyrsiau drwy'r broses Glirio, os oes ganddynt nam, cyflwr iechyd hirdymor, neu wahaniaeth dysgu penodol, megis dyslecsia, y dylent gysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd cyn gynted ag y bo modd i drafod trefniadau cefnogi. Dylid anfon manylion yr holl fyfyrwyr sy'n crybwyll anabledd at y Gwasanaethau Anabledd, yn unol â pholisi'r brifysgol ar gyfrinachedd (gweler Adran 7).

### 5.15 Cadw cofnodion

Rhag ofn y ceir cwyn ar sail gwahaniaethu o ganlyniad i gais aflwyddiannus, rhaid cadw'r holl bapurau sy'n berthnasol i'r broses ddewis yn unol â deddfwriaeth gwarchod data.

### 5.16 Cofrestru ar-lein

Wrth gofrestru ar-lein, bydd myfyrwyr yn cael eu hannog i gysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd os bydd arnynt angen addasiadau rhesymol. Yr eithriad i hyn yw lle mae myfyrwyr eisoes wedi cofrestru â'r Gwasanaethau Anabledd.

## 6 GWEITHGAREDDAU CYNEFINO

### 6.1 Cynllunio cynhwysol

Dylai digwyddiadau cynefino fod yn gynhwysol a chael eu cynllunio gan roi ystyriaeth i anghenion amrywiol yr holl fyfyrwyr. Mae'n eithriadol o bwysig bod gweithgareddau cynefino yn gynhwysol gan ei bod yn debygol y bydd myfyrwyr yn bresennol nad ydynt wedi rhannu gwybodaeth yn ymwneud ag anabledd eto. Dylai adborth gan fyfyrwyr ynghylch mynediad fod yn sail i weithgareddau yn y dyfodol.

### 6.2 Cludiant a lleoliadau hygyrch

Dylid defnyddio lleoliadau hygyrch ar gyfer digwyddiadau mewnol ac allanol. Dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod cludiant ar gael a bod myfyrwyr anabl yn

gallu mynd a gweithwyr cefnogi, cŵn tywys gyda nhw, neu ddefnyddio technoleg gynorthwyol lle bo modd. Caiff ei ystyried yn arfer da defnyddio cwmnïau llogi cludiant/bysiau sy'n cynnigcerbydau hygyrch.Yn y rhan fwyaf o achosion, os gweithredir dyletswydd a ragwelir ni fydd angen wedyn gyfiawnhau trefniadau anhygyrch, megis cludiant, llety ac arlwyo. Gwybodaeth
Dylai'r holl ddogfennaeth fod ar gael mewn Print Clir (gweler Adran 9), gyda systemau yn eu lle i gynnig fformatiau amgen yn brydlon os bydd galw amdanynt.

### 6.3 Gweithgareddau Cynefino Ychwanegol

Ni fydd angen gweithgareddau cynefino ychwanegol ar fyfyrwyr anabl bob amser, ond gall fod angen prosesau cynefino ychwanegol ar wahân ar rai myfyrwyr er mwyn delio â materion penodol. Er enghraifft, gall myfyrwyr â nam ar eu golwg fod angen cymorth i ymgyfarwyddo â threfn llyfrgelloedd, ystafelloedd addysgu a chyfleusterau, neu gefnogaeth 1:1 ychwanegol i ddefnyddio systemau cyfrifiadurol.

### 6.4 Cyfeirio

Mae cynefino yn broses barhaus i fyfyrwyr. Dylai unrhyw fyfyriwr sy'n crybwyll anabledd gael ei gyfeirio at y Gwasanaethau Anabledd fel bod modd trefnu cefnogaeth os nad yw'r addasiadau wedi'u nodi a'u trefnu cyn hynny (gweler 4.5).

## 7 CYFRINACHEDD A RHANNU GWYBODAETH BERTHNASOL

### 7.1 Annog myfyrwyr i rannu gwybodaeth berthnasol

Er nad oes dyletswydd ar fyfyrwyr i rannu gwybodaeth mewn perthynas â'u nam/ cyflwr iechyd parhaus, mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y brifysgol i gymryd 'camau rhesymol' i weld a oes angen addasiadau rhesymol ar fyfyrwyr er mwyn atal gwahaniaethu. Rhaid i'r brifysgol gael y wybodaeth er mwyn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth i ymgeiswyr anabl yn ystod y camau ymgeisio a derbyn; er mwyn sicrhau bod myfyrwyr anabl yn derbyn cefnogaeth briodol; ac er mwyn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu rhoi yn eu lle i alluogi'r myfyriwr i gymryd rhan yn llawn.

Mae camau rhesymol i roi cyfleoedd i fyfyrwyr anabl i ofyn am addasiadau rhesymol yn cynnwys gofyn i fyfyrwyr ar yr adegau canlynol:

- Pan fyddant yn gwneud cais am le ar gwrs (mae hyn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr, ac ym mhob cyfnod, gan gynnwys yn ystod prosesau Clirio).
- Wrth wneud cais am lety.
- Wrth gofrestru.
- Wrth ddechrau modiwl/uned newydd.
- Wrth gofrestru ar gyfer arholiadau.
- Wrth gofrestru ar gyfer teithiau maes neu fathau eraill o deithiau.
- Cyn lleoliadau.

### 7.2 Dull cynhwysol

Ni fydd pob myfyriwr yn eu hystyried eu hunain yn anabl. Ffordd gynhwysol o sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yw gofyn fel mater o drefn a oes ganddynt ofynion penodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar adegau pan fo angen gwneud ymholiadau mewn ymateb i amgylchiadau lliniarol neu ystyriaethau penodol eraill. Dylai staff sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal mewn amgylchedd lle mae preifatrwydd yn cael ei barchu.

### 7.3 Ceisiadau am gyfrinachedd

Mae gan fyfyrwyr yr hawl i gyfrinachedd, ar sail Deddf Diogelu Data 1998 a hefyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r brifysgol gydymffurfio â 'cheisiadau am gyfrinachedd', sy'n ymwneud yn benodol a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.

O dan gais am gyfrinachedd, gall myfyriwr ofyn am i **natur** neu **fodolaeth** eu nam gael ei chadw'n gyfrinachol. Gall hyn olygu na ellir gwneud rhai addasiadau ond yn lle hynny gellir gwneud addasiadau gwahanol (sydd weithiau'n llai priodol). Rhaid gwneud hyn yn gwbl eglur i'r myfyriwr.

### 7.4 Cyfrifoldeb y brifysgol

Ni ddylid rhannu gwybodaeth berthnasol am nam/ cyflwr iechyd hirdymor myfyriwr ond â staff arall sydd angen ei gweld o ran eu gwaith er mwyn rhoi addasiadau yn eu lle ac ni ddylid rhyddhau'r wybodaeth heb ganiatâd eglur y myfyriwr.

### 7.5 Amgylchiadau eithriadol

Dylai staff gymryd camau gweithredu rhesymol (a all gynnwys rhoi gwybod i awdurdodau cyfrifol) os ydynt yn credu, yn eu barn broffesiynol, bod myfyriwr yn peryglu ei ddiogelwch ei hun, neu ddiogelwch eraill.

### 7.6 Rhieni a gwarcheidwaid

Polisi'r brifysgol yw delio â'r holl ymholiadau'n uniongyrchol â'r myfyriwr dan sylw. Ni ddylai staff rannu gwybodaeth â rhieni neu warcheidwad ond â chaniatâd eglur y myfyriwr oni bai fod amgylchiadau eithriadol (gweler 7.5).

### 7.7 Cyfrifoldeb myfyrwyr

Mewn rhai cyrsiau, gall fod gofynion iechyd a diogelwch penodol neu ofynion proffesiynol sy'n gosod dyletswydd ar fyfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr i ddatgan rhai cyflyrau meddygol neu namau penodol.

### 7.8 Cyfeirio at y Gwasanaethau Anabledd

Os yw myfyriwr neu ymgeisydd yn sôn wrth aelod staff, hyd yn oed wrth fynd heibio, bod ganddynt nam/cyflwr iechyd parhaus, gellid ystyried hyn yn 'wybodaeth adeiladol'. O ganlyniad mae gan y brifysgol ddyletswydd i gydymffurfio â'r Ddeddf Anabledd trwy beidio â thrin yr unigolyn hwnnw'n llai ffafriol na myfyrwyr heb anabledd, a thrwy wneud unrhyw addasiad rhesymol er mwyn osgoi rhoi'r myfyriwr anabl o dan anfantais sylweddol. Dylid dilyn y drefn ganlynol:

[a] Dylid gofyn i fyfyrwyr a ydynt wedi rhoi'r wybodaeth hon yn gyfrinachol neu a ydynt yn bwriadu i'r wybodaeth gael ei throsglwyddo.

[b] Os yw'r myfyriwr yn gofyn i'r wybodaeth gael ei chadw'n gwbl gyfrinachol, dylid hysbysu'r myfyriwr wrth wneud hynny y gall fod yn anodd, neu'n amhosib, darparu'r gefnogaeth angenrheidiol neu wneud addasiadau rhesymol.

[c] Oni bai fod y myfyriwr yn mynnu bod y wybodaeth i'w chadw'n gwbl gyfrinachol, dylid cyfeirio'r myfyriwr bob amser at y Gwasanaethau Anabledd.

[d] Os bydd y myfyriwr yn nodi y byddant yn cyfeirio eu hunain, dylai'r staff gysylltu â'r gwasanaeth hefyd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo. Dylid hysbysu'r myfyriwr o'r drefn hon.

[e] Er mwyn rhoi addasiadau rhesymol ar waith, dylai myfyrwyr gofrestru gyda'r Gwasanaethau Anabledd yn: https://apps.bangor.ac.uk/plsp/applicant/ pan ofynnir iddynt roi caniatâd penodol i rannu gwybodaeth a llwytho i fyny dystiolaeth ddogfennol o anabledd. Unwaith mae gwybodaeth ddigonol ar gael, bydd y gwasanaethau anabledd yn dechrau proses Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (CCDP) (gweler Adran 8).

### 7.9 Lleoliadau Gwaith

Gweler 14.6.5

### 7.10 Ysgrifennu geirda i fyfyrwyr anabl

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan fyfyrwyr anabl hawl i gyfrinachedd. Ni chaniateir datgelu gwybodaeth i drydydd parti heb ganiatâd y myfyriwr. Ni chaiff geirdaon wahaniaethu yn erbyn y myfyriwr (e.e. rhoi sylwadau ar absenoldebau salwch a all fod yn gysylltiedig â'u hanabledd).

Mae dyletswydd ar ganolwyr i fod yn onest ac yn fanwl gywir a rhoi argraff gyffredinol deg. Dylid geirio geirda er mwyn rhoi golwg teg a chytbwys o'r myfyriwr, gan werthuso eu cryfderau a'u llwyddiannau, tra hefyd yn amlinellu unrhyw gyfyngiadau sydd arnynt. Os yw canolwr yn teimlo'i bod yn berthnasol sôn am nam y myfyriwr, ac y byddai hepgor y fath wybodaeth yn gwyrdroi'r geirda, dylai'r canolwr:

- Trafod y mater gyda'r myfyriwr.
- Cael caniatâd y myfyriwr.
- Cytuno sut dylid geirio'r cyfryw wybodaeth.

Os yw'r myfyriwr yn mynnu bod y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol, yna mae gan y canolwr yr hawl i beidio â rhoi geirda.

Mae polisïau Diogelu Data y Brifysgol i'w gweld yn: https://www.bangor.ac.uk/planning/dataprotection/documents/data-protection-policy.pdf

## 8 CYNLLUNIAU CEFNOGI DYSGU PERSONOL (CCDP)

Mae Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol[10] yn cael eu llunio gan Gynghorwyr y Gwasanaethau Anabledd ac yn amlinellu'r gefnogaeth ddysgu a'r addasiadau rhesymol a ddarperir i fyfyrwyr unigol er mwyn sicrhau bod y myfyriwr a'r brifysgol deall yn glir pa ddarpariaeth sydd ei hangen. Darperir CCDP i bob myfyriwr y mae angen addasiadau rhesymol arnynt. Mae Tiwtoriaid Anabledd yn cael cyfle i anghytuno â rhesymoldeb addasiad mewn perthynas ag addysgu, dysgu ac asesu. Gall rhai addasiadau ofyn am drafodaeth dair-ffordd rhwng y Tiwtoriaid Anabledd, y Gwasanaethau Anabledd a'r myfyriwr i sicrhau bod yr holl ddeilliannau dysgu yn cael eu cyflawni ac y gellir gwneud yr addasiadau mwyaf priodol. Bydd y CCDP yn golygu na fydd rhaid i fyfyrwyr roi gwybod i bob aelod staff trwy gydol eu cwrs am eu haddasiadau rhesymol unigol.

Llunnir CCDPau yn FyMangor. Gall Tiwtoriaid Anabledd, Gweinyddwyr ysgol perthnasol/Adolygwyr y Ganolfan Geisiadau, Tiwtoriaid Personol ac Uwch Diwtoriaid

[10] https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/personal_learning_support.php

weld yr holl dab CDDP. Gall Trefnwyr Modiwlau weld tab rhestr dosbarthiadau lle gallant weld hawliau myfyrwyr unigol mewn perthynas ag addysgu a dysgu yn y system modiwlau ac asesiadau, o dan y tab CCDP. Mae'n ddyletswydd ar drefnwyr modiwlau i sicrhau bod addasiadau rhesymol mewn perthynas ag addysgu, dysgu ac asesu yn cael eu rhoi ar waith o fewn eu modiwlau.

Er mwyn cael CCDP, rhaid i fyfyrwyr gofrestru yn gyntaf gyda'r Gwasanaethau Anabledd gan roi caniatâd penodol i rannu manylion gyda staff ar sail 'angen gwybod' a darparu tystiolaeth berthnasol o'r ddogfen am eu nam/cyflwr iechyd, megis:

- Adroddiad ymarferydd meddygol.
- Adroddiad ymarferydd iechyd meddwl.
- Adroddiad diagnostig ôl-16, a ysgrifennwyd yn unol â Chanllawiau Gweithgor Anghenion Dysgu Penodol 2005, gan seicolegydd cofrestredig neu athro arbenigol cymwys addas sy'n meddu ar Dystysgrif Ymarfer Asesu Anghenion Dysgu Penodol.

Ac eithrio myfyrwyr ag anaf dros dro, unwaith bydd myfyriwr wedi cyflwyno tystiolaeth o'r fath ni ddylai fod gofyn iddynt gyflwyno'r un wybodaeth eto tra byddant ar yr un cwrs.

Bydd cadw’r ddarpariaeth dan arolygiaeth gyson yn rhan o’r cynllun, a hynny er sicrhau bod unrhyw newid mewn anghenion yn cael sylw. Caiff addasiadau rhesymol eu nodi o fewn fframwaith sy'n hyrwyddo awtonomiaeth ac annibyniaeth myfyriwr. Disgwylir y bydd myfyrwyr yn manteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael ac yn rhoi adborth ar effeithiolrwydd yr addasiadau.

## 9 GWYBODAETH HYGYRCH

### 9.1 Print Clir

Gellir disgwyl y bydd rhai pobl â dyslecsia neu nam ar eu golwg, gan gynnwys darpar-fyfyrwyr, o dan anfantais sylweddol o gael gwybodaeth mewn print nad yw'n eglur. Mae amrywiaeth mawr rhwng pobl o ran y cysodiad dogfennau sydd hawsaf ganddynt ei ddarllen ond er mwyn sicrhau bod deunyddiau print o fewn cyrraedd cynifer o bobl â phosib dylai staff geisio defnyddio Print Clir[11].

### 9.2 Canllawiau ar fformatiau amgen

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn gallu defnyddio dogfennau a gynhyrchir mewn Print Clir, ni fydd pawb yn gallu defnyddio deunyddiau print. Addasiad rhesymol a ragwelir yw cynnig cynhyrchu cyhoeddiadau mewn amrywiaeth o fformatau, ar gais. Er enghraifft: mewn fformat electronig, print mawr neu mewn braille. Bydd angen gosod datganiad eglur, mewn print mawr mewn lle amlwg, ynghylch y fformatau amgen sydd ar gael.

Gall y Gwasanaethau Anabledd gynnig cyngor ynghylch sut i lunio dogfen mewn fformat print mawr (h.y. pwynt 16 neu fwy), gan gynnwys tablau, diagramau, labeli, etc. ac mae ganddo gysylltiadau yn y gymuned hefyd os oes

[11]Ewch i: http://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/resources.php.cy

angen cynhyrchu testunau hir mewn braille. Gellir gwneud tasgau llai yn fewnol. Cysylltwch â'r Gwasanaethau Anabledd i gael gwybodaeth.

**SensusAccess**[12]
Mae SensusAccess yn ddull hunan-wasanaeth sy'n galluogi myfyrwyr a staff Prifysgol Bangor i drosi dogfennau'n awtomatig i fformat arall, gan gynnwys trosi deunyddiau i lyfrau-llafar (MP3 a DAISY), e-lyfrau (EPUB, EPUB3 a Mobi) a Braille digidol. Gellir defnyddio'r gwasanaeth hefyd i drosi dogfennau anhygyrch megis ffeiliau PDF delwedd yn unig, lluniau JPG a chyflwyniadau PowerPoint Microsoft i ffurfiau mwy hygyrch a llai trafferthus.

**Canllawiau cyflwyniadau hygyrch**
Mae dylunio deunyddiau cwrs yn dda er mwyn cynnwys myfyrwyr anabl yn y dysgu fel rheol yn gwella cyfleoedd dysgu yr holl fyfyrwyr. Gall arddangosiadau gweledol helpu myfyrwyr i gael gafael ar ddeunydd ond heb roi ystyriaeth i ofynion gwahanol myfyrwyr anabl, gallant hefyd eu hatal rhag hynny. Wrth ddefnyddio arddangosiadau gweledol, megis cyflwyniadau PowerPoint, etc., dylai staff ddilyn canllawiau cynhyrchu Print Clir, ond dylent hefyd gadw mewn cof y protocolau gwahanol sydd ynghlwm wrth y cyflwyniadau er mwyn sicrhau eu bod o fewn cyrraedd cynifer o fyfyrwyr â phosib. Am ganllawiau, gwelwch:
http://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/access_resources.php.en
https://www.bangor.ac.uk/itservices/lt/accessibility.php.en

## 9.3 Dogfennau PDF

Mae'n haws i bobl sy'n defnyddio technolegau cynorthwyol ddarllen dogfennau PDF gyda chymorth 'Access Adobe. I gael gwybodaeth am fanteision a rhwystrau dogfennau PDF a'r ffordd o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, gwelwch:
https://www.gov.uk/guidance/how-to-publish-on-gov-uk/accessible-pdfs

SensusAccess https://www.bangor.ac.uk/library/sensusaccess Gellir defnyddio hwn i drosi ffeiliau PDF delwedd yn unig i fformatau mwy hygyrch.

## 9.4 Canllawiau Gwefannau Hygyrch

Mae gofyn i wefannau fod o fewn cyrraedd pawb, gan gynnwys pobl ag anableddau gweledol, clyw, corfforol/echddygol, yn ogystal â'r rhai hynny â gwahaniaethau dysgu penodol e.e. dyslecsia. Mae gan bobl anabl hawl gyfreithiol i fynd at dudalennau gwe ac felly dylai pob gwefan fod o fewn cyrraedd iddynt.

Ystyrir bod creu un fersiwn o'r wefan, a hwnnw o fewn cyrraedd pawb, ni waeth sut maent yn defnyddio'r we, yn ymarfer da. Mae creu fersiwn ychwanegol, testun-yn-unig, yn aml yn dyblu'r gwaith sydd ei angen i ddiweddaru'r wefan, ac oherwydd hynny gall fersiynau testun-yn-unig fod yn hŷn na'r prif fersiwn. Dylid gweld creu fersiwn testun yn unig fel opsiwn olaf yn unig pan fydd pob dull arall o roi mynediad at y wefan wedi ei ystyried.

Er mwyn darparu ar gyfer pawb, dylai gwefannau fod yn hyblyg o ran eu dyluniad, er mwyn galluogi defnyddwyr unigol i ddefnyddio eu porwyr i addasu'r testun a'r gosodiadau lliw er mwyn gweddu i'w gofynion a'u hamgylchiadau penodol. Yn achos technolegau cynorthwyol e.e. darllenwyr sgrin, er mwyn gweithio'n effeithiol dylai tudalennau gwe fod wedi eu dylunio'n briodol a'u

[12] https://www.bangor.ac.uk/library/sensusaccess

hysgrifennu mewn iaith farcio hyperdestun ddilys (HTML). I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm y We.

Mae gwybodaeth fanwl ar wneud tudalennau gwe'n hygyrch ar gael yng Nghanllawiau Menter Hygyrchedd y We (WAI)[13].

## 10 CYFLEUSTERAU / ADNODDAU HYGYRCH

### 10.1 Yr Amgylchedd Ffisegol

Nod y brifysgol yw sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol a'r adeiladau'n rhagweld anghenion pobl anabl. Bydd yr holl adeiladau newydd yn hygyrch, a lle mae gwaith atgyweirio a gwella adeiladau presennol yn cael ei wneud, bydd gwaith i wella mynediad yn rhan ohono.

Mae gwaith gwella mynediad ffisegol yn cael ei nodi, ei flaenoriaethu a'i fonitro gan y Gweithgor Mynediad Cynhwysol sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr; mae aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o Undeb y Myfyrwyr, myfyrwyr anabl, y grŵp Mynediad lleol; y Gwasanaethau Anabledd; Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch; Adnoddau Dynol; a Gwasanaethau Eiddo a Champws. Mae'r Grŵp yn adrodd i'r Grŵp Tasg Ystadau a Chyfleusterau

[13] http://www.w3.org/standards/webdesign/accessibility

**10.2 Trefn Argyfwng**

Ceir polisi ac arweiniad ar gyfer myfyrwyr, staff ac ymwelwyr anabl ynghylch defnyddio adeiladau'n ddiogel a'u gadael yn ddiogel yn ystod argyfwng ym Mholisi Diogelwch Tân y Brifysgol.

Yn ystod argyfwng gall fod angen cymorth neu addasiadau ychwanegol ar rai pobl er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac nad ydynt mewn unrhyw berygl. Bydd gan unrhyw fyfyriwr sy'n disgyn i'r categori hwn Gynllun Personol Dianc mewn Argyfwng[14] (PEEP).

**10.3 Cyfleusterau ac offer Hygyrch**

Bydd y Brifysgol yn cymryd pob cam ymarferol a rhesymol i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael mynediad i'w gwasanaethau a'i chyfleusterau, a lle bo angen, bydd yn rhoi addasiadau yn eu lle i unigolion. Ond, er mwyn gweithio tuag at sicrhau cydbwysedd rhwng dyletswyddau a ragwelir a dyletswyddau ymatebol y Ddeddf Cydraddoldeb, bydd unrhyw atgyweirio yn y dyfodol i adeiladau a chyfleusterau'n ystyried anghenion myfyrwyr ag ystod eang o anableddau.

Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i fyfyrwyr anabl wrth brynu offer newydd er mwyn sicrhau mynediad cyfartal. Mae'r gwasanaethau anabledd yn gallu rhoi gwybodaeth a chyngor ar faterion yn ymwneud â mynediad.

Dylai'r gwasanaethau fynd ati i drefnu ffordd o gael adborth gan fyfyrwyr er mwyn gallu gwella'r ddarpariaeth yn gyson.

**10.4 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

Mae'n hanfodol bwysig bod adnoddau dysgu o fewn cyrraedd pob myfyriwr a dylid cynllunio mynediad lle bo'n bosib. Lle mae modiwlau'n cynnwys dysgu mewn amgylchedd dysgu rhithwir, dylid darparu ar gyfer ystod eang o hawliau, gan gynnwys myfyrwyr sy'n defnyddio ffyrdd annhraddodiadol o gael gwybodaeth o'r sgrin (e.e. defnyddwyr technoleg testun-i-lais a dylai fod modd gwneud addasiadau rhesymol unigol. Dylai meddalwedd ganiatáu i fyfyrwyr weithio ar eu cyflymder eu hunain neu gymryd seibiannau; lle bo'n bosib dylid cynnig testun neu is-deitlau i gyd-fynd â chlipiau sain.

Dylai staff fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu ac ymestyn eu gwybodaeth am ddulliau cynhwysol.

**10.5 Darpariaeth llyfrgell**

Mae'r Brifysgol wedi ymateb i ofynion y Ddeddf Cydraddoldeb trwy ddarparu ystod o addasiadau i'w darpariaeth llyfrgell ar gyfer myfyrwyr anabl[15] i alluogi mynediad teg. Y Gwasanaethau Anabledd fydd yn pennu pa unigolion sydd â hawl i gael addasiadau rhesymol, a byddant yn cael eu cynnwys yng Nghynlluniau Cefnogi Dysgu Personol myfyrwyr.

**10.6 Monitro'r ddarpariaeth**

Dylid cael adborth gan fyfyrwyr anabl er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth a'r cyfleusterau o fewn cyrraedd pawb.

---

[14] http://www.banqor.ac.uk/hss/inflink/disabilityhs.php
[15] http://www.banqor.ac.uk/librarv/help/quides.php

## 11 CYFLEOEDD DATBLYGU STAFF

Er mwyn i staff gyflawni eu hymrwymiadau'n llawn, rhaid iddynt wybod a deall y rhwystrau i ddysgu mae myfyrwyr anabl yn eu hwynebu. Gwelir gwybodaeth am weithdai ac adnoddau ar dudalennau gwe'r Gwasanaethau Anabledd a'r Ganolfan Gwella Addysgu a Dysgu (CELT).

https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/info_staff.php.cy

https://www.bangor.ac.uk/celt/index.php

Yn ychwanegol at hynny, mae gan y Brifysgol ddyletswydd statudol i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r ddarpariaeth a wneir yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a deunyddiau cefnogi ar gael ar:

https://www.bangor.ac.uk/humanresources/staffdevelopment/index.php.cy
Dylai staff geisio cyngor arbenigol fel y bo angen a manteisio ar y cyfleoedd datblygu a ddarperir gan y brifysgol.

## 12 DARPARIAETH AR Y CYD

Lle cyflwynir addysgu a dysgu trwy drefniant cydweithredol, diffinnir cyfrifoldebau'r y ddwy ochr yn y cytundeb rhwng Prifysgol Bangor a'r partner i sicrhau eglurder o ran darparu cefnogaeth anabledd arbenigol. Gweler Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol[16].

## 13 CYNLLUNIO, DILYSU AC ADOLYGU RHAGLENNI

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â Chod Ymarfer Prifysgol Bangor ar gyfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni[17].

**13.1** Mae cynhwysiad yn rhan o broses barhaus y sefydliad o wella profiad myfyrwyr. Mae arferion dysgu, addysgu ac asesu cynhwysol o fudd i'r holl fyfyrwyr, a dylid eu hystyried yn gyson wrth gynllunio, datblygu ac adolygu rhaglenni er mwyn osgoi gorfod gwneud addasiadau ar ôl hynny. Mae gwybodaeth am ddulliau a strategaethau cynhwysol i symud rhwystrau ar gael yn:

https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/info_staff.php; Gall y

Gwasanaethau Anabledd ddarparu gwybodaeth a chyngor fel bo'r angen.

**13.2** Dylai modiwlau/rhaglenni astudio a phrosesau adolygu newydd roi ystyriaeth i anghenion myfyrwyr ag ystod eang o namau cyflyrau. Mae geiriad deilliannau dysgu'n[18] ganolog i'r cwricwlwm cynhwysol; rhaid iddynt grynhoi'r dysgu arfaethedig yn fanwl gywir ac yn eglur, ac ni ddylent, yn y ffordd y'u hysgrifennir, osod unrhyw rwystrau anfwriadol yn ffordd fyfyrwyr anabl.

---

[16] https://www.bangor.ac.uk/regulations/codes/documents/BUCode12-v201801.pdf
[17] https://www.bangor.ac.uk/regulations/codes/documents/BUCode08-v201801.pdf
[18] https://www.bangor.ac.uk/ar/main/course/documents/GuidelinestoLearningOutcomes.pdf

**13.3** Fel rheol mae mwy nag un ffordd o ddangos deilliannau dysgu neu gyflawni safon cymhwysedd, ac os bydd angen bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr anabl i ddangos, er mewn ffordd wahanol, eu bod wedi cyrraedd yr un safon â'u cyd-fyfyrwyr (gweler 15.3).

**13.4** Os gwelir wrth fonitro bod rhwystrau'n bodoli sy'n ymwneud ag anabledd, dylid gwneud addasiadau i'r rhaglen neu'r modiwl fel rhan o'r broses adolygu ac ailddilysu. Dylai Ysgolion ddefnyddio gwybodaeth am brofiad myfyrwyr anabl wrth gyflwyno rhaglenni a modiwlau i'w dilysu a'u hailddilysu.

**13.5** Dylai prosesau dilysu ac adolygu gynnwys gwerthusiad o amcanion, deilliannau dysgu a strategaethau asesu'r rhaglen ar sail cydraddoldeb. Dylai ysgolion fesur i ba raddau y mae cwrs yn cynnwys myfyrwyr anabl a sicrhau bod ymarfer a allai wahaniaethu yn cael ei adnabod a'i ddiddymu. Dylid ystyried effaith a hygyrchedd yr amgylchedd addysgu a dysgu, gan gynnwys dysgu o bell, gwaith maes a lleoliadau, fel rhan o'r broses hon. Dylid mynd ar ôl unrhyw beth sy'n dod i'r amlwg yn yr asesiad effaith a diwygio cynllun y rhaglen yn unol â hyn.

## 14 DYSGU AC ADDYSGU CYNHWYSOL

### 14.1 Polisi

Dylai'r gweithgareddau addysgu a dysgu a'r adnoddau cysylltiedig rhoi cyfle cyfartal ac effeithiol i bob myfyriwr i gyflawni'r deilliannau dysgu arfaethedig. Mae dull addysgu a dysgu hyblyg a chynhwysol yn galluogi ac yn grymuso myfyrwyr sy'n ymroi'n briodol i'r gwaith i gyflawni eu potensial fel unigolion, ac yn golygu hefyd bod llai o angen addasiadau unigol[19].

### 14.2 Ymwybyddiaeth o hawliau myfyrwyr

Dylai trefnwyr modiwlau sicrhau eu bod yn gyfarwydd â gofynion dysgu eu holl fyfyrwyr a rhaid iddynt nodi os oes ganddynt fyfyrwyr sydd angen addasiadau rhesymol unigol. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld yn y system modiwlau ac asesiadau, dan y tab CCDP (PLSP):
https://apps.bangor.ac.uk/modulesassessments/

### 14.3 Dull cynhwysol

Dylai staff addysgu ragdybio bob amser bod ganddynt fyfyrwyr anabl ar eu cwrs. Er mwyn sicrhau bod yr **holl** fyfyrwyr yn cael eu cynnwys, gellir gwneud addasiadau syml i ymarfer addysgu mewn darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau, yn cynnwys:

- Mae ffocws i restrau darllen, maent yn gyfoes, ac ar gael cyn i fodiwlau ddechrau i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael testunau mewn braille, fformat electronig neu sain.
- Gwneud deunyddiau addysgu ar gael ar BlackBoard; darperir taflenni a chopïau o sleidiau ymlaen llaw, lle bynnag y bo modd.
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyflwyno.
- Lle bo'n briodol, cyflwyno gwybodaeth gymhleth mewn fformat hygyrch, er

[19] https://www.gov.uk/government/publications/inclusive-teaching-and-learning-in-higher-education

enghraifft, crynhoi'r wybodaeth mewn pwyntiau bwled.

- Crynhoi'r deunydd gweledol ar lafar i gefnogi myfyrwyr nad ydynt yn gallu gweld manylion o bell.
- Defnyddio microffonau/dolenni gwddw, a defnyddio'r arfer o ailadrodd cwestiynau sy'n codi yn y gynulleidfa, i gefnogi'r rhai sy'n drwm eu clyw a sicrhau y gall pawb elwa o'r cwestiynau a'r atebion.
- Caniatáu neu hwyluso recordio addysgu.
- Cydnabod y bydd rhai myfyrwyr yn defnyddio technoleg gynorthwyol neu weithwyr cefnogi.
- Bod yn ymwybodol o anghenion pobl sy'n darllen gwefusau, a lle bo'n bosib, wynebu'r myfyrwyr wrth siarad (gan gynnwys wrth ddefnyddio sleidiau neu ysgrifennu ar fwrdd). Gwneud yn siŵr fod yr holl fannau cyflwyno wedi eu goleuo'n briodol, e.e. osgoi goleuo o'r cefn neu o'r ochr drwy ffenestri.
- Gwneud yn siŵr bod y cyfarwyddiadau'n cael eu rhoi ar lafar ac yn weledol.
- Defnyddio ystod o ddulliau asesu.

Mae'r enghreifftiau hyn yn cynrychioli ymarfer addysgu da er budd yr holl fyfyrwyr. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ddulliau cynhwysol yn: http://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/info staff.php.cy

### 14.4 Sesiynau ymarferol

Bydd CCDPau yn amlinellu addasiadau penodol y gall fod angen eu gwneud ar gyfer unigolion, a bydd angen asesiad risg unigol neu drefniadau cynefino unigol i rai myfyrwyr. Lle mae gan fyfyriwr weithiwr cefnogi i'w helpu i wneud tasgau ymarferol, bydd y gwasanaethau anabledd yn llunio cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod y gweithiwr yn cadw o fewn ffiniau ei swyddogaeth a bod y gefnogaeth yn cyd-fynd â'r deilliannau dysgu.

### 14.5 Asesiadau risg

Lle codir materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, dylid cynnal asesiad risg llawn. Bydd hyn yn golygu archwilio'n llawn addasiadau rhesymol a wneir ar y cyd â'r gwasanaethau myfyrwyr a'r Gwasanaethau Anabledd. Rhaid egluro'r holl ffactorau i'r myfyriwr mewn da bryd. Rhaid cofnodi dogfennaeth lawn yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

### 14.6 Cynllunio Taith Maes yn Gynhwysol

#### 14.6.1 Cynnwys Myfyrwyr Anabl

Dylid cynllunio gweithgareddau gwaith maes ar sail cynllunio cynhwysol, gan roi sylw i hygyrchedd yn y cam cynllunio. Yn y rhan fwyaf o achosion, os gweithredir dyletswydd a ragwelir ni fydd angen wedyn gyfiawnhau trefniadau anhygyrch, megis cludiant, llety ac arlwyo. Dylid gwneud trefniadau fel bod cludiant ar gael a bod myfyrwyr anabl yn gallu mynd â gweithwyr cefnogi, cŵn tywys gyda nhw, neu ddefnyddio technoleg gynorthwyol lle bo angen.

Dylid rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod rhai lleoliadau a gweithgareddau yn gallu creu rhwystr i rai myfyrwyr anabl. Dylid dod o hyd i leoliadau hygyrch; rhaid gwneud eithriad os nad oes lleoliad/cyfleuster arall lle gellir yn rhesymol gyflawni deilliannau dysgu craidd y modiwl, er enghraifft, safle daearegol penodol.

Dylai trefnwyr gwaith maes gysylltu â myfyrwyr anabl a'r Gwasanaethau Anabledd

er mwyn gweld a oes angen addasiadau neu os oes unrhyw anghenion unigol. Bydd PLSP y myfyriwr yn nodi lle mae angen hyn os yw'r Gwasanaethau Anabledd eisoes wedi dod i gysylltiad â'r myfyriwr.

Lle bo'n bosib, dylai myfyrwyr anabl allu mynd ar yr un gwaith maes â'u cyd-fyfyrwyr nad ydynt yn anabl. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid ceisio trefnu gwaith maes arall i unigolion mewn ymgynghoriad â'r myfyriwr penodol a'r Gwasanaethau Anabledd.
Mewn amgylchiadau eithriadol, lle nad yw'n bosib cynnal gwaith maes hygyrch dylid darparu profiadau amgen i fyfyrwyr anabl lle mae cyfleoedd tebyg ar gael sy'n bodloni'r deilliannau dysgu e.e. teithiau maes rhithwir.

#### 14.6.2 Addasiadau rhesymol

Dylai pob myfyriwr gael cyfle arall i ofyn am addasiadau rhesymol cyn pob taith maes (gweler Adran 7).

#### 14.6.3 Monitro

Dylai trefnydd y gwaith maes ofyn am adborth gan fyfyrwyr anabl ynghylch hygyrchedd teithiau maes a chanfod unrhyw welliannau i fynediad y gellid eu gwneud er mwyn parhau i wneud y modiwl yn fwy cynhwysol.

### 14.7 Lleoliadau Gwaith

I'w darllen ar y cyd â'r Weithdrefn ar gyfer Dysgu ar Leoliad[20].

#### 14.7.1 Deddfwriaeth

Mewn rhai achosion, gall fod gan y myfyriwr ar leoliad gontract cyflogaeth. Mewn achosion felly, bydd gan eu cyflogwyr hefyd gyfrifoldebau cyfreithiol tuag atynt o dan adrannau cyflogaeth Deddf Cydraddoldeb 2010.

Lle mae lleoliadau, gan gynnwys lleoliadau rhyngwladol yn ofyniad ffurfiol neu'n elfen safonol yn y rhaglen, dylai Ysgolion ystyried ffyrdd o sicrhau bod cyfleoedd dysgu penodol ar gael i fyfyrwyr anabl trwy:

- Chwilio am leoliadau mewn cyd-destunau hygyrch.
- Rhoi arweiniad arbennig ar leoliadau rhyngwladol.
- Gweithio gyda darparwyr lleoliadau, a lle bo angen, gwasanaethau anabledd y brifysgol, er mwyn sicrhau bod lleoliadau'n hygyrch.
- Rhoi cefnogaeth cyn lleoliadau, yn ystod lleoliadau ac wedyn sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion unrhyw fyfyriwr anabl, gan gynnwys anghenion cludiant.

#### 14.7.2 Cwynion, trefniadau'n ymwneud ag aflonyddu a gwahaniaethu

Dylai trefniadau cwyno nodi'n eglur yr unigolyn neu'r unigolion y gall myfyrwyr gysylltu â nhw os bydd problemau'n codi. Gan y gall prosesau cwyno fod yn araf, mae'n bwysig bod staff y brifysgol sy'n delio â lleoliadau hefyd yn gallu ymateb yn gyflym ac yn briodol i ddatrys problemau er mwyn sicrhau nad oes tarfu ar brofiadau dysgu myfyrwyr.

Efallai bydd angen rhoi trefniadau yn eu lle i ddirwyn lleoliad anfoddhaol i ben os na ellir datrys anawsterau. Mewn achosion o'r fath, bydd angen trosglwyddo

[20] https://www.bangor.ac.uk/regulations/codes/code07.php.cy

myfyrwyr i leoliadau mwy addas er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio'n andwyol ar eu haddysg.

### 14.7.3 Canfod gofynion lleoliad myfyrwyr

Dylai staff prifysgol sy'n ymdrin â lleoliadau drafod gyda'r myfyrwyr eu gofynion penodol o ran lleoliad a lle bo angen dylent drafod gyda'r Gwasanaethau Anabledd. Efallai bydd yn rhaid i'r Gwasanaethau Anabledd lunio Cynllun Cefnogi Dysgu ar Leoliad i'r myfyriwr.

#### 14.7.4 Dod o hyd i leoliad addas

Gall gymryd mwy o amser i drefnu lleoliadau i fyfyrwyr anabl, ac efallai y bydd y broses o ganfod lle addas yn fwy cymhleth.

Lle mae myfyrwyr eu hunain yn gyfrifol am agweddau ar y trefniadau, mae'n help rhoi gwybodaeth am gyfleoedd ar gyfer lleoliad iddynt yn ddigon buan fel y gallant ddewis eu lleoliad a dechrau paratoi. Gall myfyrwyr fod angen cefnogaeth ychwanegol i fynd at gyflogwyr, gwneud ceisiadau priodol, gofyn am addasiadau rhesymol unigol, cael eu hyfforddi ar gyfer cyfweliadau a chael eu hannog i leisio eu pryderon ynghylch mynediad.

Nid yw cyflogwyr yn gorfod cymryd myfyrwyr a gall fod angen i drefnwyr lleoliad chwarae rhan fwy gweithgar mewn sicrhau lleoliadau addas i fyfyrwyr anabl.

Mewn rhai achosion, bydd yn briodol i staff prifysgol sy'n ymdrin â lleoliadau ymweld â'r lleoliad i weld a yw'n hygyrch ac ystyried unrhyw addasiadau rhesymol i fyfyrwyr unigol. Dylid ystyried hefyd unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd neu anabledd. Gall y Gwasanaethau Anabledd gynnig cyngor ac arweiniad.

#### 14.7.5 Rhannu gwybodaeth gysylltiedig â namau

Dylai ffurflenni lleoliad annog myfyrwyr i holi am addasiadau rhesymol. Er y bydd rhai myfyrwyr efallai yn hapus rhannu gwybodaeth â'r brifysgol, gallant fod yn amharod i'r wybodaeth honno gael ei rhannu â'r darparwr lleoliad. Efallai y bydd angen i staff sy'n ymdrin â lleoliadau'n y Brifysgol gynnig cyfle i fyfyrwyr siarad am y materion sensitif sy'n codi wrth rannu'r cyfryw wybodaeth. Efallai y bydd angen iddynt esbonio i fyfyrwyr eu cyfrifoldeb i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol ar ffurflen gais.

Efallai nad yw'r holl wybodaeth am nam myfyriwr yn berthnasol i'r lleoliad ac efallai mai dim ond rhai aelodau staff yn y lleoliad fydd angen cael y wybodaeth ar sail angen i wybod ac yn unol â pholisi'r Brifysgol (gweler Adran 7). Ond, ar adegau, gall goblygiadau anabledd gael effaith ar leoliad, ac felly rhaid i'r brifysgol sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo. Lle bydd myfyrwyr yn gweithio gyda phlant neu grwpiau bregus eraill, neu'n defnyddio cemegolion neu offer peryglus, er enghraifft, gallai fod angen ystyried iechyd a diogelwch. Dan amgylchiadau felly rhaid cynnal **asesiad risg llawn** (gweler 14.5), gan roi ystyriaeth i addasiadau rhesymol.

### 14.8 Adolygiad o Addasiadau ac Ymarfer

Staff academaidd fydd yn bennaf gyfrifol am wneud y cwricwlwm yn hygyrch. Er mwyn sicrhau bod yr addasiadau'n llwyddiannus ac er mwyn rhoi mynediad llawn i fyfyrwyr anabl, dylid rhoi'r cyfle i bob myfyriwr i adolygu eu profiadau ac i roi adborth a chyngor ar sut y gellir gwneud gwelliannau.

# 15 YMARFER ASESU CYNHWYSOL

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â Rheoliadau Prifysgol Bangor ar gyfer Rhaglenni Hyfforddedig[21].

## 15.1 Dangos deilliannau dysgu a asesir

Dylai ymarfer a threfniadau asesu ac arholiadau alluogi yr holl fyfyrwyr i ddangos yn deg sut maent wedi cyflawni deilliannau dysgu.

Bydd yr un safonau academaidd yn berthnasol i bawb, ni waeth beth yw eu hanabledd. Lle bo'n bosib, bydd myfyrwyr anabl yn gwneud yr un asesiad ag eraill sy'n gwneud yr un modiwl.

## 15.2 Cynllunio asesiadau cynhwysol

Dylid mynd ati i gynllunio'r cwricwlwm gan roi ystyriaeth i fynediad ar gyfer myfyrwyr anabl wrth gynllunio a chynnal yr asesiad. Bydd amrywiaeth o ddulliau asesu yn rhoi cyfle i fyfyrwyr anabl ddangos yr hyn maent wedi ei ddysgu ar yr un lefel â'u cyfoedion heb anabledd, ac yn aml bydd yn golygu bod llai o angen gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion. Anogir trefnwyr modiwlau i gysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd wrth gynllunio yn y lle cyntaf.

Bydd cynllunio cynhwysol yn galluogi myfyrwyr anabl i wneud yr un asesiad ag eraill sy'n dilyn yr un modiwl.

## 15.3 Dulliau asesu amgen

Serch hynny, os nad yw myfyriwr anabl unigol yn gallu sefyll math penodol o asesiad, er gwaethaf trefniadau ychwanegol megis amser ychwanegol, gwneir addasiad rhesymol er mwyn caniatáu i'r myfyrwyr gael ei asesu mewn dull arall sy'n gyson â'r deilliannau dysgu. Rhaid i unrhyw ddull asesu arall fod o'r un safon, dangos yr un deilliant/deilliannau dysgu, a chynnig her debyg. Dylid cynnal trafodaethau rhwng Tiwtor Anabledd yr Ysgol ac/neu Drefnydd y Modiwl, y Gwasanaethau Anabledd a'r myfyriwr. Os yw'r dull asesu'n wahanol iawn dylid cyfeirio'r mater at y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr).

## 15.4 Addasiadau rhesymol unigol

Bydd y Gwasanaethau Anabledd yn cysylltu ag ysgolion er mwyn sicrhau bod addasiadau rhesymol i'r asesiad, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol: aseiniadau, cyflwyniadau llafar; lleoliadau; sesiynau ymarferol yn y labordy; gwaith maes; arholiadau; etc. yn rhesymol ac yn rhoi'r un cyfle i fyfyrwyr anabl â'u cyfoedion i ddangos eu bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu o fewn cyd-destun cynnal safonau academaidd (gweler 3.26).

Mae trefniadau asesu i fyfyrwyr anabl yn ddibynnu ar y ffaith bod y myfyriwr yn cofrestru gyda'r Gwasanaeth Anabledd ac yn cynhyrchu tystiolaeth ddogfennol berthnasol (Adran 8).

## 15.5 Myfyrwyr byddar

Efallai y bydd angen addasu papurau arholiad/aseiniad i fyfyrwyr byddar i 'plain English' neu Gymraeg Clir h.y. newidir iaith teitl yr aseiniad i sicrhau bod y myfyriwr wedi deall y dasg dan sylw, heb newid ystyr y cwestiwn. Nodir hyn yng Nghynllun Cefnogi Dysgu Personol y myfyriwr.

---

[21] https://www.bangor.ac.uk/regulations/regulations/reg01.php.cy

**15.6 Amser ychwanegol ar gyfer cyflwyno aseiniadau**

Fel rheol, bydd yr addasiadau rhesymol a argymhellwyd yng Nghynlluniau Cefnogi Dysgu Personol myfyrwyr anabl (Adran 8) yn galluogi myfyrwyr i gyflwyno'u gwaith erbyn y dyddiad cau.

Fel rheol ni chynghorir rhoi amser ychwanegol i gyflwyno aseiniadau oni bai fod amgylchiadau lliniarol. Ond, lle mae deilliannau dysgu'n caniatáu hynny a lle na fyddai'n gwaethygu'r sefyllfa, gall fod angen agwedd hyblyg at ddyddiadau cau yn achos myfyrwyr unigol am resymau'n ymwneud ag anabledd, er enghraifft lle mae gan myfyriwr gyflwr sy'n amrywio.  Lle bernir bod hyn yn addasiad rhesymol, nodir yr addasiad hwn yn CCDP y myfyriwr.

**15.7 Gweinyddu trefniadau arholi**

Y Swyddog Arholiadau a Graddio (neu ei enwebai) sy'n gyfrifol am drefn gyffredinol cymeradwyo a gweinyddu addasiadau rhesymol i arholiadau.  Yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, Cyfarwyddwyr Cwrs sydd â chyfrifoldeb dros arholiadau ac asesiadau sydd hefyd yn gyfrifol am weinyddu addasiadau rhesymol.

**15.8 Ail-sefyll Arholiadau**

Dylai arholiadau ail-sefyll ganiatáu i fyfyrwyr ddangos mewn modd teg eu bod wedi caffael deilliannau dysgu gan ddefnyddio addasiadau rhesymol a argymhellwyd.

**15.9 Anafiadau/ salwch dros dro a thystiolaeth ddogfennol**

Rhaid i fyfyrwyr sydd ag anaf/salwch dros dro sy'n gofyn am addasiadau gysylltu â'r Gwasanaethau Anabledd cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn sicrhau bod trefniadau ychwanegol yn cael eu gwneud ar gyfer arholiadau neu asesiadau dosbarth, neu'r ddau; a bod y cyngor a'r gefnogaeth a ddarperir mor gyson â phosib ac yn cael ei chydlynu o fewn systemau'r Brifysgol.  Byddant yn pennu pa fath o dystiolaeth ddogfennol a ofynnir amdani yn ogystal â threfniadau angenrheidiol os bydd cyflwr y myfyriwr yn troi'n un tymor hir.

**15.10 Rhoi addasiadau rhesymol ar waith mewn arholiadau**

Rhaid i fyfyrwyr sydd angen addasiadau rhesymol ar gyfer arholiadau (er enghraifft, amser ychwanegol, cyfleusterau cyfrifiadurol, ysgrifennwr, etc.) gofrestru/ archebu cyn gynted ag y bo modd ar ôl i amserlen yr arholiadau gael ei chyhoeddi.  Mae hyn yn sicrhau bod yr addasiadau rhesymol yn addas i ddull asesu pob modiwl. Er enghraifft, efallai y bydd myfyriwr ag anawsterau llawysgrifen yn gofyn am ysgrifennydd ar gyfer atebion traethawd, ond nid ar gyfer papurau cwestiynau amlddewis. Gellir dod o hyd i'r weithdrefn yn: https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/exams.php.cy

**15.11 Goruchwylwyr**

Bydd yr holl fyfyrwyr sydd angen addasiadau a allai darfu ar fyfyrwyr eraill yn sefyll eu harholiadau yn yr ystafell Dechreuwyr Cynnar, yr ystafell Cefnogaeth mewn Arholiadau, Ystafell Cyfrifiadureg 1, ysgol y myfyriwr neu leoliad arall y cytunwyd arno.  Bydd angen goruchwyliwr arall ar gyfer ystafell ychwanegol.

Cyfrifoldeb y goruchwyliwr fydd sicrhau bod arholiadau'n cael eu cynnal yn unol ag addasiadau rhesymol y cytunwyd arnynt, a bod rheolau arferol cynnal arholiadau yn cael eu dilyn cyn belled â phosib mewn agweddau eraill.

Efallai y bydd angen i oruchwylwyr ddarparu gwybodaeth a roddir ar lafar fel rheol, ar ffurf ysgrifenedig i rai myfyrwyr anabl (er enghraifft, y myfyrwyr hynny sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw).

**15.12 Gweithwyr Cefnogi mewn Arholiadau**

Cynhwysir argymhellion ar gyfer cymorth ysgrifennwr, darllenwr neu weithiwr

cefnogi arall yn CCDP y myfyriwr a rhaid iddynt fod yn gydnaws â'r deilliannau dysgu. Ni ddylai defnyddio gweithiwr cefnogi roi mantais annheg i ymgeisydd ac ni ddylai roi'r ymgeisydd o dan anfantais chwaith.

Rhaid i weithwyr cefnogi fynd i sesiwn briffio a chael disgrifiad swydd a chanllawiau perthnasol[22], y mae'n rhaid cadw atynt.

Os bydd myfyriwr yn defnyddio ysgrifennydd neu ddarllenydd am y tro cyntaf, dylai gael y cyfle i gael sesiwn ymarfer ymlaen llaw.

Os defnyddir ysgrifennwr, dylid cysylltu bonyn wrth y sgript arholiad i nodi hyn i'r marcwyr.

### 15.13 Defnyddio Technoleg Gynorthwyol mewn Arholiadau

Gall myfyrwyr anabl fod angen offer arbenigol mewn arholiad. Gall trefniadau o'r fath gynnwys defnyddio cyfrifiaduron personol a phroseswyr geiriau, meddalwedd a weithredir â llais, arddangosiadau Braille, gwneuthurwyr nodiadau Braille, rhaglenni chwyddo sgrin a darllenwyr sgrin. Bydd addasiadau priodol yn cael eu cynnwys yn CCDP y myfyriwr.

Yn achos y myfyrwyr hynny y byddai defnyddio prosesydd geiriau mewn arholiadau yn addasiad rhesymol, mae'r brifysgol o'r farn bod defnyddio cyfleusterau gwirio sillafu a thorri a phastio yn rhesymol ar y cyfan. Dylai meddalwedd a mapio cysyniadau i fyfyrwyr â gwahaniaethau dysgu penodol fod ar gael hefyd fel mater o drefn. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gall y deilliannau dysgu wneud y defnydd o gyfleusterau o'r fath yn annilys, ac felly mae'r addasiadau mewn achosion o'r fath yn annilys.

Dylid datgysylltu cyfrifiaduron o'r rhwydwaith. Bydd yn rhaid gwirio unrhyw ddyfais gludadwy a ddefnyddir i sicrhau nad yw'n cynnwys deunydd y gallai'r myfyriwr ei ddefnyddio.

### 15.14 Defnyddio gweithwyr cefnogi mewn sesiynau ymarferol a asesir

Bydd CCDP y myfyriwr yn cynnwys argymhellion ar gyfer cymorth gweithiwr cefnogi a rhaid iddynt fod yn gydnaws â'r deilliannau dysgu. Mae'r Gwasanaeth Anabledd yn gyfrifol am bennu gweithiwr cefnogi i'r myfyriwr ac am lunio cynllun gweithredu i sicrhau cyfrifoldebau eglur.

Rhaid i'r gweithiwr cefnogi allu sicrhau diogelwch y myfyriwr, cyflawni cyfarwyddiadau'n fanwl gywir a dylai fod ganddo neu hi wybodaeth ddigonol am y pwnc dan sylw. Yr Ysgol neu drefnydd y modiwl sy'n gyfrifol am hyfforddiant iechyd a diogelwch, os yw'n berthnasol.

Ni chaniateir i'r gweithiwr cefnogi roi help ffeithiol i'r myfyriwr na chynnig awgrymiadau. Rhaid gweithredu'r cyfarwyddiadau yn union fel y rhoddwyd hwy gan y myfyriwr oni bai y byddai gwneud hyn yn achosi perygl. Os nad yw'r gweithiwr cefnogi'n deall cyfarwyddiadau'r myfyriwr, gall ofyn am eglurhad ond ni chaiff arwain y myfyriwr mewn unrhyw ffordd wrth wneud hyn, neu geisio dehongli dymuniadau'r myfyriwr.

Dylai'r myfyriwr fod wedi cael digon o ymarfer wrth ddefnyddio cynorthwyydd ymarferol cyn yr asesiad.

---

[22] https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/publications.php.cy

**15.15 Amgylchiadau arbennig**

Os bydd amgylchiadau arbennig yn codi (er enghraifft, salwch) y myfyriwr sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cyflwyno dogfennau priodol yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer Rhaglenni Hyfforddedig[23]. Mae gan Fyrddau Arholi'r hawl i gymryd i ystyriaeth unrhyw amgylchiad lliniarol a all fod wedi effeithio ar berfformiad myfyriwr mewn arholiad neu asesiad arall, gan gynnwys afreoleidd-dra wrth roi addasiadau rhesymol ar waith.

**15.16 Marcio gwaith ysgrifenedig**

Mae myfyrwyr â gwahaniaethau dysgu penodol sy'n cael eu cefnogi gan y Tîm Dyslecsia yn cael cyfle i gysylltu 'slip melyn' wrth eu gwaith. Dylid nodi bod slipiau melyn at bwrpas arweiniad; nid arwydd y dylid ychwanegu marciau mohonynt, ond cyn belled â bod deilliannau dysgu'n caniatáu hynny, maent yn arwydd na ddylid cosbi myfyrwyr yn ddianghenraid am unrhyw agweddau ar eu gwaith sy'n adlewyrchu eu hanawsterau dysgu penodol, a dylid marcio eu gwaith o ran cynnwys, syniadau a chrebwyll beirniadol. Mae amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad ychwanegol[24] ar gael i gefnogi marcwyr wrth farcio dan y cyfryw amgylchiadau. Dylai aseswyr ymgynghori â thiwtor anabledd eu Hysgol neu'r Gwasanaethau Anabledd er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

Gallai'r un egwyddor fod yn berthnasol i fyfyrwyr anabl eraill, er enghraifft, mae'n fwy na thebyg y bydd myfyrwyr sydd yn fyddar ers cyn iddynt ddatblygu iaith, yn defnyddio iaith arwyddion, a gellir cyfrif yr iaith hon fel eu hiaith gyntaf a'u hunig iaith o ddewis. Gan fod iaith arwyddion yn wahanol yn ieithyddol i Saesneg/Cymraeg, gall hyn effeithio ar allu'r myfyriwr i ddangos eu dysgu'n effeithiol mewn Cymraeg/Saesneg ysgrifenedig, fel sy'n ofynnol mewn arholiadau a gwaith cwrs. Lle dylid rhoi ystyriaeth i anabledd wrth farcio, bydd y system labelu yn tynnu sylw at y mater. Dylai aseswyr ymgynghori â'r Gwasanaethau Anabledd i gael rhagor o wybodaeth.

**15.17 Cwynion ac apeliadau**

Mae gan fyfyrwyr anabl yr hawl i apelio os nad ydynt yn fodlon bod eu hanghenion unigol sy'n deillio'n uniongyrchol o'u cyflwr wedi cael eu hystyried yn foddhaol yn y broses asesu (gweler y Drefn Gwyno i Fyfyrwyr[25]).

**15.18 Adborth**

Mae adborth effeithiol i gefnogi dysgu yn golygu dialog parhaus gyda'r myfyriwr Os yw myfyrwyr yn wynebu rhwystrau ychwanegol, yn enwedig y myfyrwyr hynny sy'n cael anhawster i gael gafael ar ffynonellau gwybodaeth, a rhai sy'n gorfod gweithio o gwmpas effaith anabledd, mae adborth amserol yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau bod amser yn cael ei reoli'n effeithiol.

---

[23] https://www.bangor.ac.uk/regulations/regulations/reg01.php.cy

[24] https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/documents/AUG_17_FINAL_Marking_Guidelines_Eng.pdf

[25] https://www.bangor.ac.uk/regulations/procs/proc01.php.cy